Cofnodion Cyfarfod Y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU a gynhaliwyd yn Hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron / o bell trwy gynhadledd fideo ddydd Mercher, 01 Mai 2024

YN BRESENNOL: Miss Caryl Davies, Mr Alan Davies, Ms Carol Edwards, Ms Gail Storr a Ms Llinos James

Y Cynghorwyr Caryl Roberts a Gwyn Wigley Evans (Aelodau Sir Etholedig)
Y Cynghorydd Delyth James - Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned

Cynghorwyr eraill yn bresennol: Y Cynghorydd Gareth Davies, Meirion Davies, Raymond Evans a Gareth Lloyd

YN BRESENNOL:
Ms Elin Prysor (Swyddog Monitro)
Mrs Lisa Evans (Swyddog Craffu a Safonau)
Mrs Dana Jones (Swyddog Democrataidd a Safonau)

(10:00am-11:35am)

1 **Ymddiheuriadau**
Dim.

2 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu
Datgelodd y Cynghorydd Caryl Roberts fuddiant personol yn eitemau 4 a 5.

3 Eitem gyfrinachol
Roedd y Swyddog Monitro wedi penderfynu bod Categori 12 a 13 Gorchymyn Mynediad at Wybodaeth (Amrywio) (Cymru) 2007 yn berthnasol i'r adroddiad a ganlyn (eitemau 4 a 5). Ei barn ar brawf lles y cyhoedd (ar ôl ystyried darpariaethau Rheol 10.5 o Reolau Mynediad at Wybodaeth y Cyngor) oedd y byddai gwneud y wybodaeth hon yn gyhoeddus yn datgelu gwybodaeth yn ymwneud ag unigolyn penodol ac yn caniatáu i wybodaeth ddod yn gyhoeddus cyn bod yr unigolyn wedi cael cyfle i wneud sylwadau yn ei chylch. Mae'r ffactorau hyn yn ei barn hi yn drech na lles y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth ar hyn o bryd.
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y ffactorau hyn wrth benderfynu ar brawf lles y cyhoedd, y mae'n rhaid iddynt benderfynu arno wrth ystyried a:
• ddylai'r eitem esempt barhau i fod yn esempt, ac
• a ddylid gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod.

CYTUNODD y Pwyllgor:
i) bod prawf lles y cyhoedd o gynnal yr esemptiad wedi'i fodloni
ii) y dylai eitemau 4 a 5 barhau i fod yn esempt
iii) i wahardd y cyhoedd a'r wasg o'r Pwyllgor yn ystod ystyriaeth o'r fath, yn unol â Rhan 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Mynediad at Wybodaeth (Amrywio) (Cymru) 2007

4 Adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – adroddiad ar achos honedig o dorri Cod Ymddygiad Cyngor Sir Powys i Aelodau

Nid oedd yr adroddiad sy'n ymwneud â'r eitem isod i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth esempt fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.

CYTUNODD y Pwyllgor:
(i) mai'r gweithdrefnau sydd i'w mabwysiadu gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau wrth gyflawni ei swyddogaethau a gwneud ei benderfyniad yw'r rheini sydd wedi'u hymgorffori yn Rhan 5 Dogfen S o Gyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion, sydd ynghlwm wrth yr Adroddiad hwn **(Atodiad 1**).
(ii) nodi bod y Swyddog Monitro wedi derbyn trosglwyddo'r achos hwn o Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Powys.
(iii) i ystyried adroddiad Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus yn dwyn dyddiad 20fed Tachwedd 2023 (Atodiad 2), mewn perthynas â Chynghorydd, a
iv) i wneud ei benderfyniad cychwynnol yn unol â Rheoliad 7 o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau (Cymru) 2001).

Rheswm dros y penderfyniad:
Cydymffurfio â'r gofynion o dan Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

5 Adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – adroddiad i achos honedig o dorri Cod Ymddygiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i Aelodau

Nid oedd yr adroddiad sy'n ymwneud â'r eitem isod i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth esempt fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.

PENDERFYNODD y Pwyllgor:
(i) mai'r gweithdrefnau sydd i'w mabwysiadu gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau wrth gyflawni ei swyddogaethau a gwneud ei benderfyniad yw'r rheini sydd wedi'u hymgorffori yn Rhan 5 Dogfen S o Gyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion, sydd ynghlwm wrth yr Adroddiad hwn (Atodiad 1).
(ii) i nodi bod y Swyddog Monitro wedi derbyn trosglwyddo'r achos hwn o Bwyllgor Safonau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

(iii) i ystyried adroddiad Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus yn dwyn dyddiad 20fed Tachwedd 2023 (Atodiad 3), mewn perthynas â Chynghorydd, a
iv) i wneud ei benderfyniad cychwynnol yn unol â Rheoliad 7 o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau (Cymru) 2001).

Rheswm dros y penderfyniad:
Cydymffurfio â'r gofynion o dan Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

Gadawodd y Pwyllgor i drafod yn breifat. Roedd y Swyddog Monitro yn bresennol i gynghori'r Pwyllgor.

Yn dilyn trafodaethau gan y Pwyllgor, dychwelodd y Pwyllgor, y cyhoedd, y wasg a Swyddogion i'r sesiwn gyhoeddus.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi PENDERFYNU fel a ganlyn:

Eitem 4:
1) **ar ôl ystyried Adroddiad Ymchwiliad yr Ombwdsmon yn dwyn dyddiad 20fed Tachwedd 2023 (Atodiad 3) bod tystiolaeth a allai fod yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â'r cod ymddygiad i roi cyfle i'r Cynghorydd Sir gyflwyno sylwadau, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig mewn cyfarfod yn y dyfodol mewn perthynas â chanfyddiadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod ef neu hi wedi methu, neu y gallai fod wedi methu, â chydymffurfio â'r cod ymddygiad yn unol â'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd uchod.**

Rheswm dros y penderfyniad:
Cydymffurfio â'i rwymedigaethau yn unol â Rheoliad 7 (b) o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001

2) Byddai cyfarfod pellach yn cael ei drefnu ar Orffennaf 8fed 2024 i benderfynu ar y mater.

Rheswm dros y penderfyniad:
Cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

Eitem 5:
1) ar ôl ystyried Adroddiad Ymchwiliad yr Ombwdsmon yn dwyn dyddiad 20fed Tachwedd 2023 (Atodiad 3) bod tystiolaeth a allai fod yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â'r cod ymddygiad i roi cyfle i gyn-gynghorydd yr awdurdod gyflwyno sylwadau, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig mewn cyfarfod yn y dyfodol mewn perthynas â

chanfyddiadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod ef neu hi wedi methu, neu y gallai fod wedi methu, â chydymffurfio â'r cod ymddygiad yn unol â'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd uchod.

Rheswm dros y penderfyniad:
Cydymffurfio â'i rwymedigaethau yn unol â Rheoliad 7 (b) o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001

2) Byddai cyfarfod pellach yn cael ei drefnu ar Orffennaf 8fed 2024 i benderfynu ar y mater.

Rheswm dros y penderfyniad:
Cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Pwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

Miss C Davies (Cadeirydd)
Pwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion